

Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y BWRDD PENSIYNAU CYLCH GORCHWYL

1) Cyflwyniad

Pwrpas y ddogfen hon yw nodi'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Bwrdd Pensiynau ("y Bwrdd") Cynllun Pensiwn yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynllun").

2) Cyfrifoldeb y Bwrdd Pensiynau

Bydd y Bwrdd Pensiynau yn gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â Rheolau'r Cynllun, ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun.

- Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod arfer llywodraethu a gweinyddu effeithiol ac effeithlon ar waith, a chydymffurfio â'r gofynion a osodir mewn perthynas â'r Cynllun gan y Rheoleiddiwr Pensiynau; ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun.
- Gan Gomisiwn y Cynulliad, fel Rheolwr y Cynllun, y mae'r cyfrifoldeb yn y pen draw am weinyddu a llywodraethu'r Cynllun. Mae'r Bwrdd yn cefnogi Comisiwn y Cynulliad o ran cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw a chydymffurfio mewn modd diogel ag unrhyw ofynion a osodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.
- Bydd y Bwrdd yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r cod ymarfer ar lywodraethu a gweinyddu cynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau, a hynny mewn modd effeithiol ac effeithlon.
- Bydd y Bwrdd hefyd yn helpu i sicrhau bod Cronfa'r Cynllun yn cael ei rheoli a'i gweinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon a'i bod yn cydymffurfio â'r cod ymarfer ar lywodraethu a gweinyddu cynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.
- Bydd y Bwrdd yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau yn effeithiol. Gall y Bwrdd gyfarfod yn

amlach yn ôl y gofyn gan y Cynllun, ac er mwyn dod i gyrsiau hyfforddiant yr Ymddiriedolwyr.

3) Penodi Aelodau'r Bwrdd Pensiynau

Bydd y Bwrdd Pensiynau newydd yn cynnwys pum aelod:

- Dau gynrychiolydd a gaiff eu henwebu gan Aelodau presennol ac aelodau sy'n bensiynwyr y Cynulliad.
- Dau gynrychiolydd a benodir gan Gomisiwn y Cynulliad ("y Comisiwn").
- Ymddiriedolwr Annibynnol proffesiynol i weithredu fel Cadeirydd a benodir gan y Bwrdd Taliadau (Rheolau 5.2-5.7).

Y Bwrdd Taliadau a gaiff benodi pob un o'r uchod fel Ymddiriedolwyr y Cynllun. (Rheol 5.4).

Rhaid i Gomisiwn y Cynulliad, fel Rheolwr y Cynllun, fod yn fodlon bod person i'w benodi fel cyflogwr neu gynrychiolydd aelod o'r Cynllun yn meddu ar y profiad a'r gallu perthnasol i gynrychioli cyflogwyr neu Aelodau (fel y bo'n briodol).

Yr Ymddiriedolwyr a fydd yn ffurfio'r Bwrdd Pensiynau at ddibenion Adran 5 o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, a byddant yn gyfrifol am gynorthwyo Comisiwn y Cynulliad yn ei rôl fel Rheolwr Cynllun.

Bydd y Tîm Pensiynau, ar gais y Bwrdd Taliadau, yn hwyluso'r broses o benodi Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd Pensiynau a'r Ymddiriedolwyr a enwebir gan yr Aelodau.

Y broses ddethol - Ymddiriedolwyr a enwebir gan Aelodau

- Os mai dau enwebiad yn unig sy'n dod i law, yr unigolion hynny fydd yr Ymddiriedolwyr a enwebir gan yr Aelodau.
- Os ceir mwy na dau enwebiad, cynhelir balot o'r aelodau gweithredol a'r aelodau sy'n bensiynwyr.

- Bydd yn rhaid i'r Aelodau bleidleisio cyn pen mis ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad.
- Yna, bydd y pleidleisiau hyn yn cael eu cyfrif, a bydd yr enwebeion sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn cael eu hethol.
- Bydd enwebiad yn para am gyfnod o bedair blynedd, ac er mwyn cadw Ymddiriedolwyr profiadol ar y Bwrdd Pensiynau, y bwriad yw caniatáu treigl am bedair blynedd arall ar gyfer Ymddiriedolwyr a enwebwyd gan yr Aelodau.
- Bydd pob Ymddiriedolwr a enwebir gan Aelodau yn aros yn eu swyddi nes y cynhelir balot arall.

Y broses ddethol - Ymddiriedolwyr a enwebir gan y Comisiwn

- Mae'r Swyddog Cyfrifyddu, mewn ymgynghoriad â'r Comisiynwyr, yn gyfrifol am nodi ac enwebu cynrychiolwyr y Comisiwn ar y Bwrdd Pensiynau.
- Mae Ymddiriedolwyr a enwebir gan y Comisiwn yn cynrychioli'r 'cyflogwr' a chaiff yr enwebiadau eu cymeradwyo gan y Comisiwn.
- Bydd enwebiad yn para am gyfnod o bedair blynedd, ac er mwyn cadw Ymddiriedolwyr profiadol ar y Bwrdd Pensiynau, y bwriad yw caniatáu treigl am bedair blynedd arall ar gyfer Ymddiriedolwyr a enwebwyd gan y Comisiwn.

Cadeirydd y Bwrdd Pensiynau - Ymddiriedolwr Annibynnol

Mae penodiad Ymddiriedolwr Annibynnol yn cael ei gyflawni gan Fwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n parhau am gyfnod o bedair blynedd. Unwaith y bydd cyfnod penodiad yn dod i ben gall y Cadeirydd gael ei ail-benodi am gyfnod penodol pellach.

Bydd yr Ymddiriedolwr Annibynnol yn gweithredu fel Cadeirydd y Bwrdd. Gall yr Ymddiriedolwr Annibynnol (ac eithrio Ymddiriedolwr Annibynnol dirprwyol) benodi neu enwebu person arall a gymeradwyir gan y Bwrdd Taliadau i fod yn Ymddiriedolwr Annibynnol dirprwyol neu i gynrychioli'r Ymddiriedolwr Annibynnol, a chaniateir iddo symud Ymddiriedolwr Annibynnol dirprwyol a benodwyd ganddo ef neu hi.

Rôl y Cadeirydd fydd sicrhau bod pob aelod o'r Bwrdd yn dangos parch dyledus o ran y broses, bod barn pawb yn cael ei chlywed a'i hystyried yn llawn, a phenderfynu pryd y ceir consensws.

Dylai pob aelod o'r Bwrdd ymdrechu i fod yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ac mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol mewn o leiaf tri gyfarfod bob blwyddyn. Mewn achos o ddiffyg presenoldeb cyson gan unrhyw aelod o'r Bwrdd, yna caiff cyfnod yr aelodaeth ei adolygu gan aelodau eraill y Bwrdd ar y cyd â'r Comisiwn.

Caiff yr Ymddiriedolwyr, drwy awdurdod ysgrifenedig wedi'i lofnodi gan yr holl Ymddiriedolwyr, awdurdodi is-ddirprwyo neu ddarparu ar gyfer arfer unrhyw un o'u dyletswyddau, eu pwerau a'u disgresiynau fel sy'n briodol yn eu barn hwy, i bersonau neu gorff o'r fath (gan gynnwys unrhyw un neu fwy ohonynt hwy eu hunain) y bydd yr Ymddiriedolwyr yn ei benderfynu o bryd i'w gilydd (Rheol 6.2).

4) Cworwm

Y cworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr fydd tri, a rhaid bod cworwm yn cynnwys y Ymddiriedolwr Annibynnol (Rheol 5.4).

Caiff yr Ymddiriedolwyr weithredu'n ôl penderfyniad y mwyafrif sy'n bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Bwrdd lle ceir cworwm.

5) Gwrthdaro buddiannau

Mae Gwrthdaro Buddiannau yn cyfeirio at fuddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n debygol o ragfarnu dull person o arfer ei swyddogaethau fel Ymddiriedolwr (ond nid yw'n cynnwys buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n deillio yn rhinwedd Aelodaeth o'r Cynllun yn unig).

Bydd y Comisiwn a'r Bwrdd Taliadau yn fodlon nad oes gan unrhyw un a gaiff ei benodi'n Ymddiriedolwr fuddiannau sy'n gwrthdaro. Os bydd Rheolwr y Cynllun yn penderfynu bod gan Ymddiriedolwr fuddiannau sy'n gwrthdaro, rhaid i'r Bwrdd Taliadau derfynu penodiad y Ymddiriedolwr.

Mae'r polisi ar gyfer adnabod Gwrthdaro Buddiannau wedi'i nodi mewn dogfen bolisi ar wahân.

6) Proses Adolygu'r Bwrdd

Bydd y Bwrdd yn cynnal proses adolygu ffurfiol bob blwyddyn er mwyn ceisio sicrhau gwelliant parhaus.

7) Cynghorwyr i'r Bwrdd

Gall y Bwrdd gael ei gefnogi yn ei rôl a'i gyfrifoldebau drwy benodi cynghorwyr a bydd, yn ddarostyngedig i unrhyw reoliad perthnasol a deddfwriaeth o dro i dro mewn grym, yn ymgynghori â'r cynghorwyr hyn ac ar y telerau priodol i helpu i gyflawni ei ddyletswyddau'n well. Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod perfformiadau'r cynghorwyr a benodwyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

8) Gwybodaeth a sgiliau

Rhaid i aelod o'r Bwrdd fod yn gyfarwydd â -

1. Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig y Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynllun Pensiwn yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru).
2. Unrhyw ddogfen sy'n cofnodi polisi am weinyddiaeth Cynllun Pensiwn yr Aelodau, y Cynulliad.

Rhaid i aelod o'r Bwrdd feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol: -

- Y gyfraith yn ymwneud â phensiynau;
- Cod Ymarfer y Rheolydd Pensiynau; ac
- Unrhyw faterion eraill a nodir mewn deddfwriaeth.

Mater i aelodau unigol y Bwrdd yw bod yn fodlon bod ganddynt y lefel briodol o wybodaeth a dealltwriaeth i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau yn briodol fel aelod o'r Bwrdd.

Yn unol â'r gofyniad hwn, mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd fod yn gallu dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac i ddiweddarau a chadw eu gwybodaeth yn gyfredol. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cadw cofnod o hyfforddiant a datblygiad perthnasol aelodau'r Bwrdd.

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cynorthwyo aelodau'r Bwrdd i gynnal dadansoddiad o'u hanghenion hyfforddi personol, ac yn adolygu eu sgiliau, cymwyseddau a'u gwybodaeth yn rheolaidd i nodi bylchau neu wendidau.

Bydd angen i bob aelod o'r Bwrdd gymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi a datblygu yn unol â'r gofynion Gwybodaeth a Dealltwriaeth i Ymddiriedolwyr, a bennir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau, ac fel y nodir yn ei God Ymarfer. Caiff gwybodaeth a sgiliau'r Bwrdd Pensiynau eu hasesu'n barhaus fel y gellir teilwra hyfforddiant i gyd-fynd â'u hanghenion ac â'r materion y byddant yn eu hystyried.

Mae cynllun hyfforddiant wedi'i gynnwys yng Nghynllun Busnes y Bwrdd, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.

9) Cyfarfodydd y Bwrdd - Hysbysiad a Chofnodion

Bydd Rheolwr y Cynllun yn rhoi rhybudd i bob aelod o'r Bwrdd ynghylch pob cyfarfod o'r Bwrdd. Bydd Rheolwr y Cynllun yn sicrhau bod cofnod ffurfiol o drafodion y Bwrdd ar gael. Yn dilyn cymeradwyo'r cofnodion gan Gadeirydd y Bwrdd neu bwyllgor y Bwrdd, rhaid dosbarthu'r cofnodion i bob aelod. Bydd tri chyfarfod o'r Bwrdd yn cael eu cynnal bob blwyddyn, gydag un ym mhob tymor y Cynulliad.

10) Cylch Gwaith y Bwrdd

Rhaid i'r Bwrdd gynorthwyo Rheolwr y Cynllun â materion eraill y bydd Rheolau'r Cynllun a Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu pennu. Rheolau'r Cynllun, y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus a Rheolwr y Cynllun sy'n penderfynu beth yn union fydd rôl y Bwrdd. Nodir manylion am rôl y Bwrdd yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac yn y dogfennau Swyddogaethau a Chyfrifoldebau.

11) **Safonau Ymddygiad**

Mae gan Aelodau'r Bwrdd Pensiynau ddyletswydd i weithredu:

- yn ddarbodus, yn gyfrifol, yn onest ac yn ddidwyll;
- yn ddiuedd ac er budd gorau'r holl fuddiolwyr; ac
- i gael cyngor ynghylch materion technegol nad yw'r ymddiriedolwyr yn eu deall.

Mae cyfrifoldebau sylweddol ynghlwm wrth rôl Ymddiriedolwr, ac mae'r safonau ymddygiad uchaf yn ofynnol.

12) **Gwneud penderfyniadau**

Bydd pob aelod o'r Bwrdd â hawl pleidleisio unigol, ond disgwylir y bydd y Bwrdd yn cyrraedd consensws, cyhyd ag y bo modd. Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn cael y bleidlais derfynol o ran penderfyniadau.

13) **Cyhoeddi gwybodaeth y Bwrdd Pensiynau**

Bydd aelodau'r Cynllun a phartion eraill sydd â diddordeb eisiau gwybod bod Cronfa Bensiwn yr Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon. Byddant hefyd am fod yn hyderus fod y Bwrdd wedi'i gyfansoddi a'i hyfforddi'n briodol, a'i fod yn gymwys o ran cydymffurfio â Rheolau'r Cynllun a Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus, o ran llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun a gofynion y Rheolydd Pensiynau.

Bydd y wybodaeth ddiweddaraf i'w gweld yn yr adran sy'n ymwneud â Chronfa Bensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar wefan y Cynulliad, yn dangos:

- Enwau a gwybodaeth am aelodau'r Bwrdd
- Sut y caiff aelodau'r Cynllun eu cynrychioli ar y Bwrdd
- Cyfrifoldebau'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd
- Cylch gorchwyl llawn y Bwrdd a sut y maent yn gweithredu
- Y broses o benodi'r Bwrdd

➤ Pwy y mae pob aelod unigol o'r Bwrdd yn eu cynrychioli

Bydd Rheolwr y Cynllun a'r Bwrdd yn ystyried ceisiadau am gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol neu bod y wybodaeth ar gael i aelodau unigol o'r Cynllun i annog ymgysylltiad aelodau, a hyrwyddo diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw.

14) Atebolrwydd

Bydd y Bwrdd ar y cyd ac fel aelodau unigol yn atebol i Reolwr y Cynllun.

15) Ad-dalu treuliau

Bydd treuliau a dynnir gan aelod o'r Bwrdd wrth fod yn bresennol mewn gweithgaredd a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn cael eu talu gan y Cynllun.

16) Adrodd am dorri'r rheolau

Caiff unrhyw dorri'r rheolau a gaiff ei ddwyn i sylw'r Bwrdd, boed yn dorri rheolau posibl neu wirioneddol, eu trin yn unol â'r weithdrefn a nodir mewn dogfen bolisi ar wahân.

17) Diffiniadau

Bydd gan y termau isod yr ystyr a ganlyn pan gânt eu defnyddio yn y ddogfen hon:

"Bwrdd Pensiynau" neu "Bwrdd" yw Bwrdd Pensiynau Comisiwn y Cynulliad fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.

Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynllun") Dyma Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Hwn yw'r cynllun pensiwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, gweinidogion Llywodraeth Cymru a swydd-ddeiliaid eraill y Cynulliad. Cafodd y Cynllun ei sefydlu o dan gyfarwyddyd Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan Adran 18(1)(b) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a ddaeth i rym ar 5 Mai 1999. Mae Adran 20(4) o Ddeddf

Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 i'r Ddeddf yn rhoi dilyniant i'r Cynllun.

"Rheolwr y Cynllun"

Yn golygu Comisiwn y Cynulliad fel rheolwr Cynllun Pensiwn yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

"Cadeirydd"

Cyfeiriad at ddyletswyddau sydd i'w cyflawni, neu awdurdodau i'w harfer, gan y Cadeirydd.

"Bwrdd Taliadau" -

Mae gan y Bwrdd Taliadau y pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer cynllun pensiwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad o dan adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O dan y pŵer hwn, creodd y Bwrdd Taliadau y Cynllun newydd (i gymryd lle cynllun blaenorol) a ddaeth i rym ar ddiwrnod cyntaf y Pumed Cynulliad, sef 6 Mai 2016. Y Bwrdd Taliadau yw'r awdurdod cyfrifol o ran Cynllun Pensiwn yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

18) Dehongli

Caiff unrhyw ansicrwydd neu amwysedd neu ddehongliad sy'n ofynnol yn ymwneud ag unrhyw faterion a gynhwysir yn y ddogfen hon ei ddatrys drwy Reolwr y Cynllun.